



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod Agored  
Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl Iechyd Cyhoeddus Cymru  
16 Chwefror 2022, 14:00  
Lleoliad: drwy Microsoft Teams**

<b>Yn bresennol:</b>		
Mohammed Mehmet	(MM)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol
Dyfed Edwards	(DE)	Cyfarwyddwr Anweithredol, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Judi Rhys	(JR)	Cyfarwyddwr Anweithredol
<b>Hefyd yn Bresennol:</b>		
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Matthew Browne	(MB)	Pennaeth Adnoddau a Talent
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Angela Fisher	(AF)	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid
Liz Heath	(LH)	Cynrychiolydd ochr y staff
Andrew Jones (yn dirprwyo ar ran Meng Khaw)	(AJ)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl
Sarah Morgan	(SM)	Pennaeth Profiad Gweithwyr
Joe O'Brien	(JOB)	Rheolwr Datblygu Systemau'r Gweithlu, Pobl/Gweithlu/AD (yn bresennol ar gyfer eitem 3.1)
Stuart Silcox (yn dirprwyo ar ran Rhiannon Beaumont-Wood)	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig (yn bresennol ar gyfer eitem 4.2)
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
<b>Ymddiheuriadau</b>		
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Iechyd Cyhoeddus Cymru	Cofnodion heb eu cadarnhau y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl (Agored) 16 Chwefror 2022
------------------------	--

Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, a Chyfarwyddwr Meddygol
<b>Ysgrifenyddiaeth</b>		
Andrew Morton		Swyddog Cymorth y Bwrdd

<i>Dechreuodd y cyfarfod am 14:00</i>	
<b>PODC 1/2022 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</b>	
<p>Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chrosawodd bawb oedd yn bresennol, a nododd, oherwydd yr ymateb parhaus i bandemig COVID-19 ac o ran y canllawiau cenedlaethol sydd ar waith, fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn electronig.</p> <p>Crosawodd y Cadeirydd LH i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor fel cynrychiolydd newydd ochr y Staff ar y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl.</p> <p><b>Nododd</b> y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod.</p> <p><b>Nododd</b> y Pwyllgor bod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunir ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol ym mis Ebrill 2022.</p>	
<b>PODC 2/2022</b>	<b>Datgan Buddiannau</b>
Ni ddatganwyd unrhyw fyddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datgan Buddiannau.	
<b>PODC 3/2022</b>	<b>Eitemau i'w sicrhau</b>
<b>PODC 3.1/2022</b>	<b>Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad – Ffocws ar Ddatblygu Sefydliadol a Phobl</b>
<p>Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan NL a JOB gan ddefnyddio data byw o'r Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad (PAD).</p> <p>Tynnodd JOB sylw at waith sydd ar y gweill ar hyn o bryd i ddatblygu dangosfyrddau Is-adrannol a Chyfarwyddiaethol newydd yn y meysydd penodol canlynol: Gweithrediadau a Chyllid; Iechyd a Llesiant; Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Chanolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd. Roedd y timau hyn yn rhoi adborth i'r tîm dadansoddeg corfforaethol gydag awgrymiadau ar gyfer datblygiadau pellach. Roedd yr adborth hwn yn cynnwys sut y gellid cynnwys data gwyliau blynyddol, goramser a chydraddoldeb ac amrywiaeth.</p> <p>Roedd gan bob Cyfarwyddiaeth fynediad llawn i'r dangosfwrdd cyn yr adolygiadau diwedd blwyddyn sydd i ddod; ac roedd y cyfnod datblygu presennol, a ddechreuodd ym mis Ionawr, i fod i ddod i ben ym mis Mawrth.</p> <p>Cyflwynodd JOB y Dangosfwrdd i'r Pwyllgor, a thynnodd sylw at y canlynol:</p>	

<b>Dyddiad:</b> 17 Chwefror 2022	<b>Fersiwn:</b> v0.0	<b>Tudalen:</b> 2
----------------------------------	----------------------	-------------------

- Absenoldeb cysylltiedig â Covid-19 (naill ai gyda Covid-19 neu'n ynysu oherwydd Covid-19) - roedd hyn yn gostwng yn gyffredinol.
- Absenoldeb oherwydd Salwch - yn nodi cynnydd o tua 0.5% blwyddyn ar flwyddyn. Nodwyd pwysigrwydd rheolwyr yn bwydo data i'r system yn brydlon.
- Proffil y Gweithlu - yn nodi cynnydd o 10% blwyddyn ar flwyddyn (yn bennaf ym maes Diogelu Iechyd).
- Trosiant Staff - yn nodi mai dyrchafiad oedd y prif reswm dros adael.
- Brechu Staff rhag Covid - roedd y dangosfwrdd bellach wedi'i ddiweddarau i gynnwys data ar frechiadau atgyfnerthu.

Roedd dangosfyrddau wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ar gyfer Hyfforddiant Statudol a Gorfodol, ac asesiad risg Covid-19.

Trafododd y Pwyllgor:

- Y cyfraddau trosiant cysylltiedig â dyrchafiad, gan ei fod yn dangos ochr gadarnhaol datblygu staff.
- Roedd y cynnydd o ran trosiant staff sy'n aros am lai na 12 mis yn faes sy'n peri pryder. Cadarnhaodd NL fod hyn o ganlyniad i nifer fawr o gontractau tymor byr.
- Defnyddio'r Cofnod Staff Electronig i gofnodi gwyliau blynyddol, gyda rhai adrannau ddim yn defnyddio'r system hon. Nododd NL mai'r nod oedd i bob adran ddefnyddio'r Cofnod Staff Electronig i gofnodi gwyliau blynyddol, er bod problemau technegol mewn rhai rhannau. Nododd JOB fod hwn yn faes sydd wrthi'n cael ei archwilio fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r dangosfwrdd. Roedd cymeradwyaeth gan reolwyr hefyd wrthi'n cael ei ddatblygu i sicrhau bod systemau eraill sy'n cael eu defnyddio i gofnodi'r materion hyn yn gadarn. Sicrhaodd NL y Pwyllgor fod y systemau eraill a ddefnyddir ar hyn o bryd wrthi'n cael eu hadolygu.
- Cyflwyniad data dychwelyd i'r gwaith a sut y casglwyd y data yn y Cofnod Staff Electronig. Nododd JOB fod hwn yn faes sydd wrthi'n cael ei archwilio fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r dangosfwrdd.

Diolchodd MM i JOB am y cyflwyniad ar y Dangosfwrdd, a nododd y Pwyllgor y gwaith datblygu parhaus ar y Dangosfwrdd.

### **PODC 3.2/2022 | Diweddariad ar Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Derbyniodd y Pwyllgor y papur Diweddarau ar Amrywiaeth a Chynhwysiant (Cyf 3.2a, b, PODC\_2022\_02\_16).

Amlygodd SM rai o uchafbwyntiau'r gwaith parhaus:

- Roedd Hyfforddiant Arweinyddiaeth Gynhwysol wrthi'n cael ei gyflwyno i 388 o staff band 8A ac uwch.
- Modiwlau hyfforddi ar-lein i hybu sgiliau ar gyfer Amrywiaeth a Chynhwysiant.

- Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar raglen waith 2022-23 i nodi meysydd pellach i godi ymwybyddiaeth ohonynt ac anghenion hyfforddi.
- Roedd siaradwyr allanol wedi mynychu digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o waith gwahanol grwpiau yn cwmpasu meysydd anabledd, cyfeiriadedd, hil, crefydd a cham-drin domestig.
- Roedd gwaith i adnewyddu tudalen we 'Gweithio i Ni' ar y gweill a sesiynau ymgysylltu â'r gymuned wedi'u trefnu i annog ceisiadau gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Roedd Cynllun Lleoli Kickstart ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed wedi dechrau, gyda 7 lleoliad yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd interniaethau a phrentisiaethau wrthi'n cael eu datblygu.
- Byddai canlyniadau Stonewall yn cael eu cyhoeddi ar 23 Chwefror 2022.

Canmolodd y Pwyllgor SM a'i thîm am y gwaith datblygu yn y maes hwn, gan nodi'r cynnydd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

Gofynnodd y Pwyllgor sut y gellid monitro nifer ac amrywiaeth y bobl sy'n cyflawni'r modiwlau hyfforddi. Dywedodd SM wrth y Pwyllgor eu bod wrthi'n datblygu system a fyddai'n cofnodi data o'r fath, ac am y posibilrwydd o adeiladu a chynnal system rheoli dysgu eu hunain.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y data amrywiaeth o geisiadau yn cael ei gyrchu a'i ddadansoddi'n gywir. Rhoddodd SM a MB y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch cyrchu data o system TRAC a'r defnydd dilynol o'r data hwn. Cesglir y data hwn (yn flynyddol) ym mis Mai a'i ddefnyddio'n gyfrinachol i adolygu sut mae'r Sefydliad yn recriwtio staff o gefndiroedd amrywiol.

Awgrymwyd y gellid ymgorffori profiadau ac adborth defnyddwyr mewn adroddiadau Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y dyfodol.

### **Camau gweithredu: SM**

Ar ran y Pwyllgor, diolchodd MM i SM am ei gwaith yn y maes hwn, a nodwyd angerdd ac ymrwymiad y Sefydliad cyfan i sicrhau bod amrywiaeth a chynhwysiant yn flaenoriaeth uchel.

Diolchodd MM i JR am ei harweinyddiaeth yn y maes hwn yn ystod ei chyfnod ar y Pwyllgor. Diolchodd JW ar ran y Bwrdd am y gwaith yr oedd JR wedi'i wneud ar gyfer y Sefydliad yn y maes hwn yn ystod ei chyfnod ar y Bwrdd, gan dynnu sylw at y cymorth, arweinyddiaeth, cyngor ac arweiniad amhrisiadwy a ddarparwyd gan JR drwy gydol ei hamser yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod gwaith helaeth wedi'i gyflawni i ddatblygu agenda Amrywiaeth a Chynhwysiant yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Derbyniodd y Pwyllgor y Papur Diweddarau ar yr Iaith Gymraeg (Cyf 3.3 PODC\_2022\_02\_16).

Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor eu cydymdeimlad yn dilyn y newyddion am farwolaeth Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg, a nodwyd y gwaith cadarnhaol yr oedd wedi'i gyflawni i hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

Cyflwynodd SM yr adroddiad a thynnodd sylw at bwyntiau allweddol yr adroddiad.

Trafododd y Pwyllgor bwysigrwydd dangos effaith a gwelliannau o fewn y Sefydliad a darparu cymorth i siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad, yn ogystal â chydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol.

Cytunodd NL â hyn, a nododd effaith y pandemig ar gynnydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor bod y strwythur newydd yn y Gyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl yn sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Rhoddodd MM gefnogaeth y Pwyllgor i'r Tîm i ddatblygu a gwella defnydd y Sefydliad o'r Iaith Gymraeg, gan nodi ymrwymiad y Pwyllgor i adfywio'r diwylliant dwyieithog, ac i atgyfnerthu ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad o rwymedigaethau cydymffurfio pob tîm.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag aelodau staff yn dysgu Cymraeg, manylodd SM ar yr adnoddau ar-lein sydd ar gael i holl staff Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn cynnwys unedau penodol ar gyfer dysgu sgiliau Cymraeg i staff gofal iechyd penodol. Bob blwyddyn academaidd, roedd y Sefydliad hefyd yn ariannu staff i ddilyn cyrsiau Cymraeg; roedd 24 aelod o staff yn cael eu hariannu yn y flwyddyn academaidd hon.

**Nododd** y Pwyllgor y sefyllfa bresennol o ran darpariaeth y Gymraeg a chymerodd **sicrwydd** bod gan y sefydliad gynlluniau priodol ar waith i fodloni'r gofynion statudol, i adfywio'n diwylliant dwyieithog ac i atgyfnerthu ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad o rwymedigaethau cydymffurfio pob tîm.

**PODC 3.4/2022****Gweithio mewn Partneriaeth - Diweddariad ar y Fforwm Partneriaeth Lleol**

Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar ynglŷn â Gweithio mewn Partneriaeth gan NL.

Dywedodd NL wrth y Pwyllgor fod cyfarfodydd rheolaidd yn parhau ag Undebau Llafur gwahanol i sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn mynd rhagddo'n effeithiol. Roedd trafodaethau diweddar â'r Fforwm Partneriaeth Lleol wedi canolbwyntio ar faterion amserol megis cario gwyliau drosodd, ôl-daliadau, datblygiad cyflog a materion gweithredol dydd i ddydd arall.

Ychwanegodd HB ei bod wedi gweithio â chydweithwyr ar ochr y staff i adolygu'r gynrychiolaeth ar y Pwyllgorau ac yn dilyn hyn, cytunwyd ar bedwar cynrychiolydd undeb llafur newydd ar gyfer y Pwyllgorau.

**Nododd** y Pwyllgor y diweddariad ar lafar ar Weithio mewn Partneriaeth.

### **PODC 3.5/2022** | **Ein Sgwrs – Egwyddorion ar gyfer Dyfodol Gwaith**

Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar am Ein Sgwrs – Egwyddorion ar gyfer Dyfodol Gwaith gan NL:

- Ym mis Rhagfyr, cymeradwyodd y Tîm Arwain wyth egwyddor sylfaenol a gafodd eu harwain gan ein gwerthoedd a'n strategaeth pobl.
- Cymeradwyodd y Tîm Gweithredol Busnes dreial 12 mis 'gweithio sut mae'n gweithio orau' fis Medi diwethaf. Byddai'r treial yn dechrau ar ôl i Lywodraeth Cymru ddiddymu'r gyfarwyddeb gweithio gartref bresennol.
- Mae grwpiau eraill o fewn y sefydliad sy'n cymryd rhan yn cynnwys rhwydweithiau staff, cynrychiolwyr undebau llafur ac arweinwyr pwnc.
- Roedd NL yn gweithio ag Iain Bell a'r Gyfarwyddiaeth Wybodaeth i gytuno ar y dull gorau o fesur llwyddiant y treial. Byddai'r metrigau a ddatblygwyd gan JOB hefyd yn cael eu defnyddio yn ystod y broses hon.

Nododd y Pwyllgor fod angen i'r Sefydliad fod yn gyfartal ac yn deg i'r holl weithlu wrth symud ymlaen ar ôl y pandemig.

Gofynnodd MM am i'r wyth egwyddor gael eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor.  
**Camau gweithredu: NL/LB**

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod y gwaith yn mynd rhagddo'n dda, gan sicrhau bod yr Egwyddorion ar gyfer Dyfodol Gwaith ar y trywydd cywir i ddechrau'n syth ar ôl i Lywodraeth Cymru lacio'r gofyniad cyfreithiol i staff weithio gartref.

### **PODC 3.6/2022** | **Adroddiadau Archwilio**

#### **PODC 3.6.1/2022** | **Gofalu am y Gofalwyr? (Adroddiad Archwilio Cymru) – Ymateb y Rheolwyr a Diweddariad ar Sicrwydd**

Derbyniodd y Pwyllgor y papurau Diweddarau ar Ofalu am y Gofalwyr (Cyf 3.6.1a, b, c, a d PODC\_2022\_02\_16).

Cyflwynodd NL yr adroddiad sef adroddiad Cymru gyfan gan Archwilio Cymru yn ymwneud yn benodol â sut yr oedd Sefydliadau GIG Cymru wedi cefnogi staff yn ystod pandemig Covid-19.

O fewn y cynllun gweithredu, darparodd NL ymateb o ran cynnydd ac amserlenni, a manylion y swyddogion cyfrifol. Roedd llawer o'r argymhellion yn yr adroddiad eisoes yn cael eu hystyried gan y Sefydliad fel rhan o'r arolwg llesiant ac ymgysylltu â staff.

Roedd ymateb y rheolwyr wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i Archwilio Cymru a byddai'r chwe argymhelliad yn cael eu hystyried fel rhan o weithgaredd cynllunio a gwerthuso yn y dyfodol. Byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol Busnes ddiwedd y gwanwyn.

**Derbyniodd** y Pwyllgor **sicrwydd** o ran y camau nesaf arfaethedig a nodwyd yn ymateb y rheolwyr.

### **PODC 3.6.2/2022**

### **Adroddiadau Archwilio Mewnol**

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiadau Archwilio Mewnol (Cyf 3.6.2, 3.6.2a, 3.6.2b, a 3.6.2c PODC\_2022\_02\_16).

Nododd y Pwyllgor fod yr Adroddiadau Archwilio Mewnol wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ar 20 Ionawr er mwyn iddynt eu goruchwyllo a rheoli'r camau gweithredu dilynol sy'n deillio ohonynt. Ystyriodd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl yr adroddiadau oherwydd y gorgyffwrdd â chylch gorchwyl y Pwyllgor i graffu ar y gwaith yn yr adroddiadau.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o ran y sicrwydd yn ymwneud â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith. Dywedodd NL ei fod wedi cyflwyno adroddiad i swyddogion gweithredol yn gynharach yn yr wythnos yn amlinellu bod nifer y staff yn y categori hwn wedi gostwng yn sylweddol. Tynnwyd sylw rheolwyr llinell at staff yn gweithio oriau gormodol ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol, ac roedd rheolwyr llinell wrthi'n gweithio i ddatrys y mater hwn.

**Derbyniodd** y Pwyllgor **sicrwydd** ar yr Adroddiadau Archwilio Mewnol ar gyfer Recriwtio, Oriau Ychwanegol a Goramser a Llesiant Staff.

### **PODC 3.7/2022**

### **Egwyl**

### **PODC 4/2022**

### **Eitem i'w chymeradwyo**

### **PODC 4.1/2022**

### **Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau 2021/22**

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2021/22 (Cyf 4.1a, a 4.1b PODC\_2022\_02\_16). Cyflwynodd SM yr Adroddiad a thynnodd sylw at y pwyntiau allweddol i'w hystyried.

Diolchodd MM i SM am y crynodeb a nododd y mater a nodwyd yn ymwneud â thangynrychiolaeth dynion mewn rolau bandiau is o fewn y sefydliad. Awgrymodd y Pwyllgor y byddai gwell dealltwriaeth o'r farchnad lafur a pham fod pobl yn dewis Iechyd Cyhoeddus Cymru fel cyflogwr yn cefnogi

dealltwriaeth o'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau. Dylai hyn ganolbwyntio ar gamau rhagweithiol, er mwyn helpu i lywio'r ffordd mae darpar gyflogeion yn gweld y Sefydliad.

Awgrymodd MM y dylai'r Pwyllgor archwilio'r mater hwn ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol, a gofynnodd am i adroddiad ar gynnydd gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar yr adeg briodol.

### **Camau gweithredu: NL/SM**

**Ystyriodd a chymeradwyodd** y Pwyllgor yr Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau.

### **PODC 4.2/2022 Y Gofrestr Risg Strategol a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol**

Derbyniodd y Pwyllgor y Gofrestr Risg Strategol a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (Cyf 4.2a, b ac c PODC\_2022\_02-16).

Dywedodd SS wrth y Pwyllgor fod yr holl risgiau strategol wrthi'n cael eu hadnewyddu ar hyn o bryd fel rhan o ddatblygiad CTCI 2022/23.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at y risg gynyddol yn ymwneud â materion staffio mewn ymateb i'r pandemig, ac yn benodol o fewn y Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, a grybwyllwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ar 15 Chwefror 2022.

Esboniodd NL fod y risg gynyddol hefyd wedi'i drafod yn helaeth yn y Tîm Gweithredol Busnes, a chanolbwyntiwyd ar agwedd llesiant staff, gan gydnabod y pwysau o fewn y Sefydliad ar yr adeg hon.

Esboniodd AJ hefyd fod y risg gynyddol hon yn gysylltiedig â dechrau ton Omicron y pandemig, gyda risg sylweddol o fwy o absenoldeb oherwydd salwch. Mae sgryrsiau diweddar gyda Meng Khaw yn dangos bod y sefyllfa'n gwella.

**Ystyriodd** y Pwyllgor y Cofrestrau Risg Strategol a Chorfforaethol a **chymerodd sicrwydd** bod risgiau Strategol a Chorfforaethol y Sefydliad yn cael eu rheoli'n briodol.

### **PODC 4.3/2022 Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi**

Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2021 a'r Cofnod o Gamau Gweithredu (Cyf 4.3a, b ac c PODC\_2022\_02\_16).

Aeth y Pwyllgor ati i:

- **Gymeradwyo** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2021 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.



- **Cymeradwyo** cau pedwar cam gweithredu a gwblhawyd ar y Cofnod o Gamau Gweithredu.

<b>PODC 4.4/2022</b>	<b>Polisi Mynegi Pryderon ar gyfer Cymru Gyfan</b>
----------------------	--

Derbyniodd y Pwyllgor y Polisi Mynegi Pryderon ar gyfer Cymru Gyfan (Cyf 4.4a, b, a c.PODC\_2022\_02\_16).

Cyflwynodd HB y polisi fel yr Arweinydd Gweithredol a nododd mai JW oedd Hyrwyddwr y Polisi.

Trafododd y Pwyllgor sut y byddai cymorth yn cael ei ddarparu i unigolion ddehongli'r polisi ar gyfer sefyllfaoedd penodol. Nododd HB mai hi fyddai'n darparu'r cymorth fel Arweinydd Gweithredol ar gyfer Mynegi Pryderon, a nodwyd yn y polisi. Sicrhaodd JW y Pwyllgor hefyd, fel Hyrwyddwr y polisi, ei bod hi hefyd yn cefnogi staff ac yn sicrhau bod unrhyw faterion yn cael eu cyfeirio at yr unigolyn priodol am gyngor a chymorth.

**Cymeradwydd** y Pwyllgor y Polisi Mynegi Pryderon ar gyfer Cymru Gyfan.

<b>PODC 5/2022</b>	<b>Eitemau i'w Trafod</b>
--------------------	---------------------------

<b>PODC 5.1/2022</b>	<b>Diweddariad ar Ymgysylltu â'r Gweithwyr</b>
----------------------	--

Derbyniodd y Pwyllgor y cyflwyniad ar yr Arolwg Llesiant ac Ymgysylltu (Cyf 5.1 PODC\_2022\_02\_16.)

Cyflwynodd NL y prif bwyntiau yn deillio o'r arolwg:

- Cynhaliwyd yr arolwg am y trydydd tro ac ymatebodd 40.5% o'r staff.
- Roedd staff yn teimlo'n fwy diogel yn gweithio mewn canolfannau, roedd rheolwyr llinell yn pryderu am lwyth gwaith, ac roedd staff yn teimlo'n llai abl i gymryd seibiannau yn ystod y dydd.
- Roedd dealltwriaeth o adnoddau llesiant, ond nid oeddent yn cael eu defnyddio'n eang, ac ar y cyfan nid oedd staff yn ymwybodol o arweinwyr llesiant.
- Roedd cymorth llesiant pellach wedi'i gynllunio, byddai dadansoddiad ychwanegol yn cyfeirio cymorth at feysydd sy'n peri pryder, byddai cynlluniau gweithredu lleol yn cael eu datblygu a byddai diweddariad manwl yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod Pwyllgor yn y dyfodol.
- Tynnwyd sylw at arolwg staff pellach ddiwedd yr haf/dechrau'r hydref; gweithdai llesiant; sgysiau llesiant tîm; sesiynau gofod gofal a sesiynau gwrando ar gyfer cydweithwyr iau.

Mewn ymateb i gwestiwn am y camau nesaf, cadarnhaodd NL y byddai'r arolwg ymgysylltu blynyddol yn parhau a bod gwaith yn mynd rhagddo â rhwydweithiau staff a chydweithwyr undebau llafur.

Nododd y Pwyllgor rai o ganlyniadau cadarnhaol yr arolwg, oedd yn dangos fod rheolwyr llinell yn gwbl gefnogol i staff yn ystod y pandemig a bod cefnogaeth i'r dull o adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd.

<b>Nododd</b> y Pwyllgor y diweddariad a ddarparwyd.	
<b>PODC 6/2022</b>	<b>Eitemau i'w Nodi</b>
<b>PODC 6.1/2021</b>	<b>Edrych Ymlaen</b>
<b>Nododd</b> y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl (Cyf 6.1 PODC_2022_02_16).	
<b>PODC 7/2022</b>	<b>Materion Gweinyddol i Gloi</b>
<b>PODC 7.1/2022</b>	<b>Unrhyw Fater Arall</b>
Diolchodd MM eto i JR am ei hymroddiad i Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a hefyd i'r Pwyllgor hwn yn ystod ei chyfnod yn y swydd a dymunodd yn dda iddi ar gyfer y dyfodol.	
<b>PODC 7.2/2022</b>	<b>Adborth gan y Pwyllgor</b>
Gwahoddwyd y Pwyllgor i roi adborth am y cyfarfod drwy e-bost, gan gynnwys unrhyw feysydd a weithiodd yn dda, ac unrhyw feysydd i'w gwella.	
<b>PODC 7.3/2022</b>	<b>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</b>
Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Iau 7 Ebrill 2022.	
<i>Dath y cyfarfod i ben am 16:40</i>	